



Department for  
Business & Trade

**ALLFORIO  
AR GYFER TWF  
GWASANAETHAU DBT  
YN  
Y GWLEDYDD**





# CYNNWYS

<b>Rhagair</b>	<b>4</b>
Dull, Strategaeth a Gwasanaethau DBT	6
Y Ddadl dros Allforio	7
Strategaeth Allforio DBT - Wedi'i Wneud yn y DU, Wedi'i Werthu i'r Byd	8
<b>Y Cyd-destun yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon</b>	<b>17</b>
Perfformiad Allforio Presennol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a Chyfleoedd ar gyfer Twf	18
Gwaith DBT hyd yma yn y Gwledydd	21
'Asiad' cymorth allforio DBT gyda Gwasanaethau'r Llywodraethau Datganoledig	23
<b>Cwestiynau</b>	<b>33</b>
<b>Atodiad Dadansoddol</b>	<b>36</b>

# RHAGAIR



**Yr Arglwydd Offord**  
Y Gweinidog dros Allforion

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn 2021 gan Sefydliad Fraser of Allander yn amcangyfrif bod allforion wedi cefnogi 6.5 miliwn o swyddi ledled y DU yn 2016, gyda'r ymchwil yn awgrymu bod 74% o'r rheini y tu allan i Lundain.<sup>1</sup> Mae cwmnïau allforio 21% yn fwy cynhyrchiol<sup>2</sup> ac yn talu cyflogau 7% yn uwch na'r cyflog canolrifol cenedlaethol.<sup>3</sup>

Er mwyn ehangu'r buddion hyn, rwy'n awyddus i gefnogi ystod ehangach o lawer o fusnesau i wireddu eu huchelgeisiau masnach byd-eang, gan hybu twf economaidd, swyddi a chyflogau ar draws pob Gwlad, rhanbarth a chymuned yn y DU. Dyna pam mae Gweinidogion DBT wedi ymrwmo i uchelgais i hybu allforion o gwmnïau'r DU i £1trn erbyn 2030 – y bwriedir ei gyflawni drwy weithio gyda busnes.

Mae busnesau ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eisoes yn dangos cryfderau cyffrous mewn sectorau allweddol sydd â photensial allforio cynyddol, o dechnoleg ariannol i fwyd a diod; gofod i wyddorau bywyd; a gweithgynhyrchu uwch i ynni adnewyddadwy.

<sup>1</sup> Department for International Trade, Evaluating the impact of exports on UK jobs and incomes. Cyhoeddwyd: 10 Mawrth 2021.

<https://www.gov.uk/government/publications/evaluating-the-impact-of-exports-on-uk-jobs-and-incomes>

<sup>2</sup> ONS UK trade in goods and productivity: new findings. Cyhoeddwyd: 06 Gorffennaf 2018.

<https://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/productivitymeasures/articles/uktradeingoodsandproductivitynewfindings/2018-07-06>

<sup>3</sup> Department for International Trade, Evaluating the impact of exports on UK jobs and incomes. Cyhoeddwyd: 10 Mawrth 2021.

<https://www.gov.uk/government/publications/evaluating-the-impact-of-exports-on-uk-jobs-and-incomes>

## Allforio ar gyfer Twf - Gwasanaethau DBT yn y Gwledydd

Nod DBT yw sicrhau bod gwasanaethau DBT ar gael ym mhob rhan o'r DU. Os gallwch chi gael gwasanaeth gennym ni yn Birmingham, dylai fod ar gael yn Belfast. O Gaerwysg i Gaeredin, a Coventry i Gaerdydd, ein nod yw sicrhau bod gwasanaeth DBT cyfatebol ar gael i fusnesau. Mae'n golygu bod ein cyfres o wasanaethau wedi ehangu'n ddiweddar yn y gwledydd, gan gydnabod bod DBT yn cael ei ariannu i ddarparu arlwy ledled y DU.

Mae'r ddogfen hon yn nodi, mewn un lle, gyfres o wasanaethau DBT sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ei nod yw helpu cwmnïau i ddeall pa gymorth y maent yn gymwys i'w gael, a sut i gael gafael arno. Mae ein holl wasanaethau yn y DU yn rhad ac am ddim i fusnesau.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth yr Alban a Scottish Development International, gyda Llywodraeth Cymru, ac Invest Northern Ireland a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Ym mhob Gwlad, mae gan y ddwy lywodraeth bwerau cydamserol i gynnig gwasanaethau hyrwyddo allforio a mewnfuddsoddi. Mae hyn yn golygu y gall y ddau ohonynt ddarparu gwasanaethau i fusnesau. Cytunodd pob Llywodraeth ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth<sup>4</sup> ynghylch sut yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau'n ategu ei gilydd. Mae'r egwyddor hon o gyfatebiaeth yn sail i'r mentrau a nodir yn y papur ymgysylltu DBT hwn.

Mae Llywodraeth y DU yn dymuno sicrhau nad oes 'drws anghywir' i fusnesau gael mynediad at gymorth, ni waeth pwy yw'r darparwr. Rydym yn nodi mwy o fanylion yma ar y cydweddiad rhwng gwasanaethau, a byddwn yn annog pob busnes i gael mynediad at yr holl gymorth gorau sydd ar gael iddynt gan ba lywodraeth bynnag neu ba ddarparwr bynnag a ariennir gan y llywodraeth. Mae digon o waith i'w wneud gan bob darparwr!

O ystyried y pwerau a gadwyd yn ôl gan Lywodraeth y DU, megis ynghylch ymyriadau llywodraeth i lywodraeth i ddileu rhwystrau, gan sicrhau mynediad i farchnadoedd rhyngwladol, mae rhai gwasanaethau y mae DBT yn eu cynnig mewn modd unigryw. Fe wnaethom nodi sut y gall cwmni sydd eisoes yn cael cymorth yn rhywle arall gael mynediad at wasanaethau ychwanegol o'r fath, ochr yn ochr â mynediad at ein hól troed rhyngwladol mewn dros 100 o wledydd, neu atgyfeiriad at UK Export Finance.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd DBT ehangu o'r newydd ei gymorth personol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth cyfatebol i'r cymorth un i un pwrpasol y gall busnesau yn Lloegr fanteisio arno eisoes gan un o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol DBT. Byddwn yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig, eu hasiantaethau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau y bydd adnoddau DBT ychwanegol o'r fath yn ategu'r cymorth presennol, gan gynnwys cynghorwyr masnach/arbenigwyr masnach presennol yn y gwledydd.

Rwy'n gyffrous iawn am y datblygiad hwn a'r cyfle i helpu hyd yn oed fwy o fusnesau i wireddu eu huchelgeisiau allforio. Mae DBT eisieu gwneud hyn yn y ffordd sy'n diwallu anghenion busnes orau, felly mae gennym rai cwestiynau am agweddau allweddol ar lunio a chyflwyno'r gwasanaeth newydd hwnnw, a welwch ar dudalen 33. Rhowch wybod i ni beth yw eich barn drwy ymateb i'r cwestiynau cyn 23:59, ddydd Mercher 16 Tachwedd 2023.



# DULL, STRATEGAETH A GWASANAETHAU DBT



# Y DDADL DROS ALLFORIO

Mae allforion yn ganolog i dwf cynyddol, cyflogau uwch, a mwy o gyfleoedd. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU, a gyhoeddwyd yn 2021 gan Sefydliad Fraser of Allander, yn amcangyfrif bod allforion wedi cefnogi 6.5 miliwn o swyddi ledled y DU yn 2016, gyda 74% o holl swyddi'r DU yn cael eu cefnogi gan allforio – yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy gadwyni cyflenwi – y tu allan i Lundain.<sup>5</sup> Mae busnesau sy'n allforio 21% yn fwy cynhyrchiol<sup>6</sup> ac yn talu cyflogau 7% yn uwch.<sup>7</sup> Mae DBT yn awyddus i sicrhau mwy fyth o fudd ar draws pob rhan o'r DU, gan helpu mwy o fusnesau a dod â'r posibilrwydd o hwb i gyfoeth i bob cenedl, rhanbarth a chymuned.

Allforiodd y DU werth £815.2bn<sup>8</sup> o nwyddau a gwasanaethau (yn 2022), ond yn 2021 dim ond 1 o bob 9 cwmni o Brydain Fawr a oedd yn allforio.<sup>9</sup> Mae'r potensial yn wych – mae gan 1 o bob 7 cwmni yn y DU (gyda throshiant o £500K+) gynnyrch neu wasanaeth y gellid ei allforio ond nad yw ar hyn o bryd, gydag 1 o bob 3 busnes â diddordeb mewn manteisio ar gymorth y llywodraeth<sup>10</sup>.

Mae Llywodraeth y DU eisiau ystyried allforio, neu ehangu allforion, i fod yn rhan reolaidd o benderfyniadau strategol pob busnes sydd â chynnyrch neu wasanaeth addas. Er nad allforio fydd y dewis cywir i bob busnes ar unrhyw adeg, mae cyfleoedd cyffrous y gellid eu rhyddhau pe gellid helpu mwy o gwmnïau i wireddu eu nodau. Nid yw llawer o BBaChau llai mewn sefyllfa i recriwtio rheolwyr allforio penodol. Mae nifer o wasanaethau DBT yn arbennig yn targedu cymorth i'r cwmnïau hyn.

Mae cyfleoedd byd-eang cynyddol i gwmnïau allforio hefyd. Mae twf economaidd cyflym yn rhanbarth Indo-Môr Tawel yn symud canol disgyrchiant economaidd y byd. Yn ôl astudiaeth dan arweiniad Google, erbyn 2030, rhagwelir y bydd economi ddigidol ASEAN ar ei phen ei hun yn cyrraedd \$1 triliwn ac mae cyfrifiadau DBT yn amcangyfrif erbyn 2035 y disgwylir i dros hanner defnyddwyr dosbarth canol y byd fod yn yr Indo-Môr Tawel<sup>11</sup>. Mae asesiadau DBT yn dangos bod mantais gymharol y DU o ran allforio nwyddau a gwasanaethau o ansawdd uchel wedi'i haddasu'n arbennig i fanteisio ar y marchnadoedd hyn<sup>12</sup>.

5 Department for International Trade, Evaluating the impact of exports on UK jobs and incomes. Cyhoeddwyd: 10 Mawrth 2021.

<https://www.gov.uk/government/publications/evaluating-the-impact-of-exports-on-uk-jobs-and-incomes>

6 ONS UK trade in goods and productivity: new findings. Cyhoeddwyd: 06 Gorffennaf 2018.

<https://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/productivitymeasures/articles/uktradeingoodsandproductivitynewfindings/2018-07-06>

7 Department for International Trade, Evaluating the impact of exports on UK jobs and incomes. Cyhoeddwyd: 10 Mawrth 2021.

<https://www.gov.uk/government/publications/evaluating-the-impact-of-exports-on-uk-jobs-and-incomes>

8 ONS UK balance of payments Q1 2023. Cyhoeddwyd: 30 Mehefin 2023. Datganiad Nesaf: 29 Medi 2023 (bydd data ar gyfer 2022 yn cael ei adolygu ym mis Medi).

<https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/balanceofpayments/bulletins/balanceofpayments/previousReleases>

9 Arolwg Busnes Blynyddol allforwyr a mewforwyr 2021. Cyhoeddwyd 1 Mehefin 2023. <https://www.ons.gov.uk/releases/annualbusinesssurveyexportersandimporters>

10 DBT National Survey of UK Registered Businesses 2022. Cyhoeddwyd 9 Awst 2023.

<https://www.gov.uk/government/statistics/dbt-national-survey-of-registered-businesses-exporting-behaviours-attitudes-and-needs-2022>

11 DBT Global Trade Outlook. Cyhoeddwyd 28 Chwefror 2023.

<https://www.gov.uk/government/publications/global-trade-outlook-february-2023-report>

12 DBT Global Trade Outlook. Cyhoeddwyd 28 Chwefror 2023.

<https://www.gov.uk/government/publications/global-trade-outlook-february-2023-report>

# STRATEGAETH ALLFORIO DBT - GWNAED YN Y DU, GWERTHWYD I'R BYD

Cyhoeddodd DBT Strategaeth Allforio Llywodraeth y DU ar ei newydd wedd: *Gwnaed yn y DU, Gwerthwyd i'r Byd*<sup>13</sup> ym mis Tachwedd 2021, sy'n datblygu cymorth i allforwyr ddarparu swyddi, cyflogau uwch a chynhyrchiant cynyddol ar draws pob rhan o'r DU.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cadarnhau'r uchelgais a nodir yn y Strategaeth Allforio: sef cynyddu allforion y DU bob blwyddyn nes cyrraedd targed y Ras i Driliwn – sef gwerthu dros driliwn o bunnoedd o nwyddau a gwasanaethau i'r byd y flwyddyn erbyn 2030.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, mae'r strategaeth yn ceisio mynd i'r afael ag amrywiaeth o rwystrau rhag allforio a brofir gan fusnesau'r DU, yn enwedig busnesau bach a chanolig, megis diffyg gwybodaeth,

neu gyfyngiadau o ran capasiti a rhwydweithiau. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithio gyda busnesau i'w helpu i lwyddo yn y farchnad fyd-eang.

Mae pob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig hefyd wedi mynegi eu huchelgais eu hunain ar gyfer twf allforion ac wedi nodi eu strategaethau i gyflawni hynny. Bydd Strategaeth Allforio Llywodraeth y DU yn atgyfnerthu ac yn ategu *Scotland: A Trading Nation*<sup>14</sup>, *Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio*<sup>15</sup> a gweledigaeth *Economi 10X Gogledd Iwerddon a Trade and Investment for a 10X Economy*<sup>16</sup>. Mae'r ymgyrchoedd a'r negeseuon ar gyfer y Strategaeth Allforio wedi'u gwneud yn benodol i wlad ac ardal er mwyn sicrhau chwyddiant economïau lleol a sectorau cenedlaethol amlwg.

---

13 UK Government Export strategy: Made in the UK, Sold to the World. Cyhoeddwyd 17 Tachwedd 2021.

<https://www.gov.uk/government/publications/export-strategy-made-in-the-uk-sold-to-the-world>

14 Scotland: a trading nation. Cyhoeddwyd 1 Mai 2019.

<https://www.gov.scot/publications/scotland-a-trading-nation/>

15 Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio. Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd Rhagfyr 2020.

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-12/export-action-plan.pdf>

16 Adran Economi Gogledd Iwerddon "Trade and Investment for a 10X Economy". Cyhoeddwyd 1 Mehefin 2021.

<https://www.economy-ni.gov.uk/publications/trade-and-investment-10x-economy-priorities-northern-irelands-inward-investment-trade-and-exports>



Mae lle i gynyddu nifer y busnesau sy'n allforio a gwerth allforion ym mhob gwlad. Yn benodol, gellid gwneud yn fawr o'r cyfleoedd cymharol a ganlyn ym mhob gwlad:

- > Mae gan yr Alban werth allforio cymharol gryf eisoes, ac ochr yn ochr â thyfu hyn, bydd yn elwa'n arbennig o gynnydd yn nifer ac amrywiaeth y busnesau allforio, i gynhyrchu sylfaen allforio sy'n agosach at gyfartaledd y DU. Gallai hyn helpu i adeiladu llif o gwmnïau i dyfu i fod yn fusnesau mwy ac yn allforwyr y dyfodol.
- > Mae gan Ogledd Iwerddon fantais unigryw yn y DU oherwydd ffin tir â'r UE. Er bod nifer uchel o fusnesau'n allforio dros y ffin hon, gallai gwerth cyffredinol allforion gynyddu, a hefyd ehangu'n sylweddol yn rhyngwladol y tu hwnt i'w marchnadoedd allweddol presennol.
- > Yng Nghymru, mae'r data sydd ar gael yn dangos bod gwerth allforion fesul busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW yn gymharol uchel, a dymunwn barhau i gefnogi hyn. Mae cyfle i ganolbwyntio ar gynyddu nifer cyffredinol y busnesau sy'n allforio, gan gefnogi busnesau ledled Cymru gyfan.



Bydd y casgliadau hyn yn llywio cyflwyniad cymorth DBT un-i-un ym mhob gwlad.



# GWASANAETHAU DBT

Er mwyn cyflawni'r Strategaeth Allforio, mae DBT yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan symud ymlaen o ganllawiau ac offer digidol i bob cwmni i gymorth pwrpasol i fusnesau sy'n bodloni meini prawf penodol. Mae'r siart isod yn dangos sut mae gwasanaethau DBT yn cyd-fynd â'i gilydd, ac mae'r tabl yn nodi'r hyn y mae pob un yn ei gynnig, sut i gael mynediad at y gwasanaeth, ac yn crynhoi cymhwysedd cwmni.

## Ein Cynnig Cymorth Allforio



## Allforio ar gyfer Twf - Gwasanaethau DBT yn y Gwledydd

Cymorth Allforio	Sut i Gyrchu	Cymhwysedd
<p><b>Great.gov.uk</b> yw gwefan allanol DBT sy'n hyrwyddo'r gwasanaethau allforio a'r cynnwys y mae DBT yn ei gynnig i helpu busnesau i ddechrau a chynyddu allforio, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>&gt; Dysgu sut i allforio'n llwyddiannus a nodi'r farchnad allforio orau;</li> <li>&gt; Creu cynllun allforio ar-lein wedi'i deilwra ar eu cyfer;</li> <li>&gt; Dod o hyd i gyfleoedd busnes rhyngwladol perthnasol a gwneud cais amdanynt a gwerthu'n uniongyrchol trwy lwyfannau e-fasnach dramor;</li> <li>&gt; Cysylltu â rhwydwaith rhanbarthol DBT o Gyngorwyr Masnach Ryngwladol.</li> </ul>	<p><a href="http://www.great.gov.uk">www.great.gov.uk</a>  <a href="http://www.great.gov.uk/">http://www.great.gov.uk/</a></p>	Unrhyw fusnes.
<p>Gall busnesau <b>roi gwybod am rwystr masnach</b> neu godi mater mynediad i'r farchnad gyda DBT. Darperir ymateb cychwynnol o fewn 5 diwrnod gwaith.</p>	<p><a href="http://www.great.gov.uk/report-trade-barrier">www.great.gov.uk/report-trade-barrier</a></p>	Unrhyw fusnes.
<p>Mae'r <b>Gwasanaeth Cymorth Allforio</b> yn darparu'r prif bwynt cyswllt i fusnesau sy'n allforio i unrhyw wlad yn y byd ac eithrio'r Wcráin, Rwsia neu Belarus.</p> <p>Mae gwasanaeth arbenigol ar-lein pwrpasol ar gyfer masnachu gyda Rwsia, Wcráin a Belarus.</p>	<p><a href="http://www.gov.uk/ask-export-support-team">www.gov.uk/ask-export-support-team</a></p>	Unrhyw fusnes, fel arfer y rhai sydd eisoes yn allforio.
<p>Mae'r <b>Academi Allforio</b> yn rhaglen ddysgu a datblygu gynhwysfawr; hawdd ei defnyddio, rhad ac am ddim. Mae cyrsiau sylfaen (modiwlau dechreuwyr) yn cyflwyno busnesau i hanfodion allforio allweddol, gan gynnwys sut i greu cynllun gweithredu allforio, nodi cynulleidfa darged, cynnal ymchwil marchnad, deall dogfennaeth tollau a llawer mwy.</p> <p>Mae dosbarthiadau meistr (modiwlau cyfryngol) yn archwilio meysydd arbenigol yn fwy manwl – o gyfleoedd mewn marchnadoedd penodol i weithdai sy'n canolbwyntio ar sectorau.</p>	<p><a href="https://www.great.gov.uk/export-academy/">https://www.great.gov.uk/export-academy/</a></p>	Unrhyw fusnes, fel arfer allforwyr newydd neu rai sy'n ehangu.
<p><b>Mae Hyrwyddwyr Allforio</b> yn arweinwyr busnes presennol sy'n helpu busnesau i feithrin hyder allforio a dysgu o lwyddiannau allforio trwy rwydweithio busnes-i-fusnes a dysgu rhwng cymheiriaid.</p>	<p>Cyswllt: <a href="mailto:ExportChampions@trade.gov.uk">ExportChampions@trade.gov.uk</a></p>	Unrhyw fusnes, fel arfer allforwyr newydd neu rai sy'n ehangu.

## Allforio ar gyfer Twf - Gwasanaethau DBT yn y Gwledydd

Cymorth Allforio	Sut i Gyrchu	Cymhwysedd
<p><b>UK Export Finance (UKEF)</b> yw asiantaeth credyd allforio'r DU. Mae'n cefnogi allforwyr y DU drwy ddarparu yswiriant diogelu risg, hwyluso cyllid i allforwyr a chefnogi benthyciadau i brynwyr tramor.</p>	<p><a href="https://www.great.gov.uk/trade-finance/">https://www.great.gov.uk/trade-finance/</a></p>	<p>Pob busnes.</p>
<p><b>Cynghorwyr Masnach Ryngwladol (ITAs).</b> Yn Lloegr, mae ITAs rhanbarthol yn darparu cymorth rheoli cyfrifon wedi'i deilwra ar gyfer busnesau bach a chanolig sydd â'r potensial allforio mwyaf. Mae ITAs yn helpu busnesau i gyflawni llwyddiant masnachol trwy eu cyflwyno i gleientiaid posibl, cefnogi gweithgarwch sioeau masnach rhyngwladol, neu eu helpu i gael mynediad at deithiau masnach DBT, cymorth sectoraidd a rhyngwladol arbenigol. Maent hefyd yn dadansoddi anghenion cwmnïau, yn rhoi cyngor ar fynediad i'r farchnad ac yn cefnogi cynhyrchu cynllun gweithredu. Gallant helpu busnesau i oresgyn rhwystrau allforio penodol. Mae'n debygol y bydd gan ITA profiadol bortffolio rhagweithiol o 50-75 o fusnesau. Mae DBT yn cynnig ymestyn egwyddor y cymorth un-i-un dwys hwn i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ffurf sy'n ategu mentrau presennol.</p>	<p><a href="https://www.great.gov.uk/contact/office-finder/">https://www.great.gov.uk/contact/office-finder/</a></p>	<p>Yn rhanbarthau Lloegr, allforwyr BBaChau newydd neu gynyddol gyda chynnyrch neu wasanaeth sy'n addas i'w allforio, a chynllun allforio.</p> <p>Fel arfer mae angen trosiant cwmni o dros £500k, ond gall fod eithriadau e.e. mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd allforio isel.</p>
<p><b>Marchnadoedd Rhyngwladol.</b> Fel rhan o'r gwasanaeth cymorth allforio, gall busnesau gael mynediad at gymorth allforio wedi'i deilwra yn y farchnad trwy naw hyb marchnad ryngwladol: Gogledd America, America Ladin a'r Caribî, y Dwyrain Canol, Afghanistan a Phacistan, Affrica, Ewrop, Dwyrain Ewrop a Chanolbarth Asia, De Asia, Asia a'r Môr Tawel a Tsieina.</p> <p>Gall busnesau ddisgwyl derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>&gt; cyngor un-i-un gan gynghorydd masnach yn y farchnad i ystyried y camau nesaf;</li> <li>&gt; mynediad i ystod eang o adroddiadau sector, gwybodaeth am y farchnad, a chanllawiau;</li> <li>&gt; cyflwyniadau i rwydwaith o ddarparwyr gwasanaethau sector preifat i helpu busnesau gyda materion gan gynnwys cyfrifwyr lleol, arbenigwyr cyfreithiol, ac arbenigwyr sector. Mae'r rhain yn cynnwys ffioedd masnachol.</li> </ul>	<p>Fel arfer bydd yr atgyfeirio trwy dîm ITA, neu DBT Nation.</p> <p><a href="https://www.gov.uk/guidance/access-international-market-export-support">https://www.gov.uk/guidance/access-international-market-export-support</a></p>	<p>Yn ogystal â meini prawf ITA, dylai fod gan fusnesau rywffaint o brofiad o allforio a bod yn awyddus i ymuno â marchnad newydd neu ehangu arni.</p>

## Allforio ar gyfer Twf - Gwasanaethau DBT yn y Gwledydd

Cymorth Allforio	Sut i Gyrchu	Cymhwysedd
<p><b>Swyddi Tramor.</b> Mae gan DBT 1,400 o staff mewn timau mewn mwy na 100 o wledydd, gan ddarparu cymorth rhyngwladol i fusnesau'r DU.<sup>17</sup> Gall y timau hyn roi busnesau'r DU mewn cysylltiad â phrynwyr, darparu cyngor arbenigol ar wneud busnes mewn marchnadoedd mwy heriol, a helpu i ddatgloi rhwystrau masnach. Maent wedi'u grwpio mewn 9 rhanbarth rhyngwladol, pob un yn cael ei arwain gan un o Gomisiynwyr Masnach DBT.</p>	<p>Fel arfer caiff ei atgyfeirio trwy dîm ITA, neu DBT Nation neu sector. Mae DAs a'u hasiantaethau hefyd yn gwneud atgyfeiriadau.</p>	<p>Allforwyr mwy profiadol yn bennaf y mae eu cynhyrchion / gwasanaethau wedi'u halinio'n agos ag anghenion y farchnad.</p>
<p><b>Mae timau sector</b> yn cynnwys arbenigedd penodol. Byddant yn dylunio ac yn cyflwyno gweminarau, teithiau, digwyddiadau cwrdd â'r prynwr, a chynnwys ar gyfer adnoddau ar-lein. Mae arbenigwyr sectoraidd hefyd yn bwydo i mewn i Gytundeb Masnach Rydd DBT a gwaith rhwystr mynediad i'r farchnad; polisi allforio; a mewnfuddsoddiad.</p> <p>Mae timau sector DBT yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>&gt; Amaethyddiaeth, bwyd a diod;</li> <li>&gt; Amddiffyn a Diogelwch;</li> <li>&gt; Gwyddoniaeth a Thechnoleg;</li> <li>&gt; Gwasanaethau a Sgiliau; a</li> <li>&gt; Cynaliadwyedd ac Isadeiledd.</li> </ul>	<p>Fel arfer bydd yr atgyfeirio trwy dîm ITA, neu DBT Nation. Mae DA/eu hasiantaethau yn gweithio mewn partneriaeth a hefyd yn gwneud atgyfeiriadau.</p>	<p>Gweithio'n bennaf gyda'r allforwyr mwyaf yn y DU ym mhob sector.</p>

# RHWYDWAITH RHYNGWLADOL DBT A RHWYDWAITH Y GWEINYDDIAETHAU DATGANOLEDIG

Agwedd hollbwysig ar fframwaith cymorth allforio DBT yw ei gyrhaeddiad byd-eang helaeth. Mae gan DBT 1,400 o staff mewn timau mewn dros 180 o farchnadoedd, ar draws mwy na 100 o wledydd ledled y byd; mae'r rhain wedi'u grwpio mewn 9 rhanbarth, pob un dan arweiniad Comisiynydd Masnach. Yn ogystal, mae 36 o Genhadon Masnach y Prif Weinidog yn gwasanaethu 66 o farchnadoedd ac yn ymgysylltu lle mae cyfleoedd masnach a buddsoddi sylweddol wedi'u nodi gan Lywodraeth y DU.

Mae swyddogion Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cydweithio'n agos yn rhan o'r rhwydwaith tramor. Mae gan SDI tua 100 o staff, ar draws 23 o wahanol wledydd<sup>18</sup>, mae gan Lywodraeth Cymru 20 o swyddfeydd rhyngwladol mewn 11 o wledydd<sup>19</sup> ac mae gan Invest Northern Ireland dros 50 o staff mewn 25 o leoliadau ledled y byd<sup>20</sup>, a phob un yn cefnogi allforion a mewnfuddsoddiad. Mae mwyafrif y staff hyn wedi'u cyd-leoli gyda DBT mewn Llysgenadaethau'r DU ledled y byd.




18 Swyddfeydd SDI Global. <https://www.sdi.co.uk/about-us/global-offices>

19 Swyddfeydd Rhyngwladol Llywodraeth Cymru. <https://www.gov.wales/international-offices>

20 Timau Rhyngwladol Invest Northern Ireland. <https://www.investni.com/international-business/our-international-teams>

# Allforio ar gyfer Twf - Gwasanaethau DBT yn y Gwledydd

## Ein Cyrhaeddiad Byd-eang - Gwledydd sydd â phresenoldeb DBT



Sylwer: Ni ddylid cymryd bod y map hwn yn cynrychioli barn llywodraeth y DU am ffiniau neu statws gwleidyddol.

## Allforio ar gyfer Twf - Gwasanaethau DBT yn y Gwledydd

Presenoldeb Gweinyddiaeth ddatganoledig dramor		
Llywodraeth yr Alban/SDI	Llywodraeth Cymru	INI
UDA	Gwlad Belg	Awstralia
Canada	Canada	Gwlad Belg
Awstralia	Tsieina	Canada
Tsieina	Iwerddon	Chile
Hong Kong	Ffrainc	Tsieina
Siapan	Yr Almaen	Denmarc
India	India	Yr Aifft
Singapore	Siapan	Ffrainc
Gwlad Belg	Qatar	Yr Almaen
Denmarc	Emiradau Arabaidd Unedig	India
Ffrainc	UDA	Iwerddon
Yr Almaen		Yr Eidal
Iwerddon		Siapan
Yr Eidal		Mecsico
Yr Iseldiroedd		Yr Iseldiroedd
Gwlad Pwyl		Qatar
Sbaen		Saudi KSA
Swistir		Singapore
Emiradau Arabaidd Unedig		Sbaen
		De Affrica
		De Corea
		Emiradau Arabaidd Unedig
		UDA



# Y CYD-DESTUN YNG NGHYMRU, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON



# PERFFORMIAD ALLFORIO PRESENNOL YN YR ALBAN, CYMRU A GOGLEDD IWERDDON A CHYFLEOEDD AR GYFER TWF

Mae'r adran isod yn crynhoi rhywfaint o wybodaeth lefel uchaf ddefnyddiol ar berfformiad allforio cyfredol. Ceir dadansoddiad llawnach o'r ystadegau, gan gynnwys tueddiadau, siartiau, a nodiadau ar y data yn yr Atodiad Dadansoddol.


Sylwer fod gwahaniaethau rhwng data masnach y Swyddfa Ystadegau Gwladol a CThEF a ddefnyddir gan lywodraeth y DU, a'r data masnach a gyhoeddwyd gan y Gweinyddiaethau Datganoledig.<sup>21</sup> Mae'r gwahaniaethau hyn oherwydd gwahanol ffynonellau data a methodolegau. Un anghysondeb yw bod Llywodraeth yr Alban yn eithrio olew a nwy o'u hystadegau masnach, ond bod y nwyddau hyn wedi'u cynnwys yn ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a CThEF. Mae Tabl 2 yn yr Atodiad Dadansoddol yn nodi ffigurau allforio CThEF heb gynnwys tanwydd.

Mae Ffigur 1 isod yn nodi perfformiad allforio nwyddau, wedi'i fynegeo i alluogi cymhariaeth rhwng pob un o'r pedair gwlad.



<sup>21</sup> <https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/a-user-guide-to-regional-trade/>

**Ffigur 1: Tueddiadau allforio nwyddau o wledydd y DU (prisiau cyfredol), Mynegai (2013 = 100)<sup>22</sup>**



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEF ChI 2023 Sylwer: dewiswyd y flwyddyn sylfaen yn 2013 gan mai dyma pryd y bydd y gyfres ddata yn dechrau, mae allforion nwyddau heb gynnwys tanwydd ar gael yn yr atodiad dadansoddol (tabl 2).

Mewn gwerthoedd ariannol, gwelodd pob un o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gynnydd yng nghyfanswm y nwyddau a gafodd eu hallforio rhwng 2013-2019, er bod allforion nwyddau'r Alban yn sylweddol fwy cyfnewidiol oherwydd amrywiadau mewn prisiau olew. Gwelodd allforion nwyddau'r DU lefelau uwch o anweddolrwydd rhwng 2019 a 2022 oherwydd effaith pandemig COVID-19, dirwasgiad byd-eang, tarfu ar y gadwyn gyflenwi, addasu i'r berthynas fasnachu newydd gyda'r UE, ymosodiad Rwsia ar Wcráin, chwyddiant prisiau, a newidiadau i fethodoleg casglu data CThEF.

Yn 2022, aeth rhwng 50% a 60% o allforion nwyddau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban i'r UE. Mae hyn o gymharu â 64% yng Ngogledd Iwerddon a gynyddodd o 58% yn 2016, yn rhannol oherwydd y ffin a rennir â Gweriniaeth Iwerddon. Mae cyfran is o allforion gwasanaethau yn mynd i'r UE ar 32% i 36% yn 2021 ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, a 38% ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth o rai metrigau ciplun allweddol.

<sup>22</sup> Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEF ChI 2023.  
<https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/>

## Allforio ar gyfer Twf - Gwasanaethau DBT yn y Gwledydd

**Tabl I: Metrigau allweddol yn ymwneud â busnesau, allforwyr ac allforion ym mhob gwlad**

	Cyfanswm y DU	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon	Lloegr
<b>Nifer y busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW 2022<sup>23</sup></b>	2,767,700	173,650	108,055	77,950	2,408,045
<b>% y busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW 2022</b>	100%	6%	4%	3%	87%
<b>Nifer y busnesau sy'n allforio yn 2021<sup>24 25</sup></b>	299,900	14,800	8,400	16,400	260,300
<b>Gwerth allforion nwyddau (2022) CThEF, £Bn<sup>26</sup></b>	333.7	36.3	20.5	9.3	267.6
<b>Allforion nwyddau fesul busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW (2022)<sup>27 28</sup></b>	£120,585	£209,121	£189,605	£119,548	£111,136
<b>Gwerth allforion gwasanaethau (2021) ONS, £Bn</b>	330.7	23.2	6.8	4.1	296.6
<b>Allforion gwasanaethau fesul busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW (2021)</b>	£119,496	£133,608	£63,135	£52,085	£123,190
<b>Cyfanswm gwerth allforion (nwyddau a gwasanaethau) (2021) ONS, £Bn<sup>29</sup></b>	654.0	50.1	23.8	13.2	539.2

Sylwer: Mae ffigurau masnach y DU wedi'u cynnwys yn ganllaw yn unig, gan nad y rhain yw'r dewis ffynonellau. Y ffynhonnell a ffafrir ar gyfer masnach ar lefel y DU yw masnach fisol ONS y DU.

23 ONS UK business; activity, size and location 2022. Cyhoeddwyd 20 Medi 2022. <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/bulletins/ukbusinessactivitysizeandlocation/2022>

24 ONS Annual Business Survey exporters and importers. Cyhoeddwyd 1 Mehefin 2023.

<https://www.ons.gov.uk/releases/annualbusinesssurveyexportersandimporters>

25 NISRA Northern Ireland Economic Trade Statistics (NIETS). Cyhoeddwyd 14 Rhagfyr 2022.

Data for the number of businesses exporting from NI are available from the NISRA data portal <https://data.nisra.gov.uk/> Search for: NIETS Number of External Sellers and Exporters

26 HMRC Regional Trade Statistics Q1 2023.

<https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/>

27 HMRC Regional Trade Statistics Q1 2023.

<https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/>

28 ONS UK business; activity, size and location 2022. Cyhoeddwyd 28 Medi 2022. <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/bulletins/ukbusinessactivitysizeandlocation/2022>

29 ONS Subnational Trade in Services 2021. Cyhoeddwyd 28 Mehefin 2023.

<https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/internationaltrade/datasets/subnationaltradeinservices>

# GWAITH DBT HYD YMA YN Y GWLEDYDD

Mae DBT yr Alban, DBT Cymru a DBT Gogledd Iwerddon, a elwir hefyd yn 'hybiau', wedi'u lleoli yng Nghaeredin, Caerdydd a Belfast. Agorodd dau yn 2021, gyda DBT Gogledd Iwerddon yn dilyn yng ngwanwyn 2022. Mae timau'r gwledydd yn ymroddedig i helpu busnesau i:



allforio rhagor;



denu rhagor o fuddsoddiad; a



gwireddu cyfleoedd  
Cytundebau Masnach Rydd.

Mae'r timau eu hunain yn gryno, gyda llai na 40 o bobl ar draws yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gyda'i gilydd. Maent yn mynegi ac yn hyrwyddo gwasanaethau DBT, gan gysylltu busnesau fel y bo'n briodol. Maent yn manteisio ar ddyfnder ac ehangder arbenigedd a rhwydweithiau'r adran, gan gynnwys yn rhyngwladol.

Ochr yn ochr â meithrin perthnasoedd cryf â phob Gweinyddiaeth Ddatganoledig ac asiantaeth fasnach, mae canolbwytiau wedi ceisio meithrin cysylltiadau effeithiol â sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau; cyrff masnach; a chwmnïau allforio eu hunain. Mae'r cysylltiadau hyn wedi helpu i lunio gwasanaethau allforio DBT. Nod DBT yw sicrhau nad oes 'drws anghywir' i fusnesau gael mynediad at gymorth allforio, ni waeth pwy yw'r darparwr.

Mae'r timau eisoes wedi gweithio i ehangu gwasanaethau DBT o fewn y Gwledydd. Yn gynnar yn 2022, agorodd yr Academi Allforio i fusnesau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mewn partneriaeth â'r Gweinyddiaethau Datganoledig a'u hasiantaethau, mae gwaith gyda rhanddeiliaid yn parhau i annog busnesau i ymuno â'r Academi, gan sicrhau bod cynnwys wedi'i deilwra i anghenion busnesau lleol, a chysylltu busnesau â'r gwasanaethau dilynol cywir gan ba lywodraeth neu asiantaeth bynnag sydd yn y sefyllfa orau.

Bu hybiau'r gwledydd hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn ystod 2022 ar sut y gellid cyflwyno Hyrwyddwyr Allforio. Cyhoeddwyd 28 o Hyrwyddwyr Allforio o bob rhan o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, gan Ysgrifennydd Gwladol DBT ym mis Tachwedd 2022. Mae recriwtio Hyrwyddwyr Allforio ychwanegol yn ystod y mis diwethaf bron wedi dyblu'r nifer hwnnw. Mae llawer eisoes wedi cyfrannu llais busnesau'r gwledydd at lwyfannau a digwyddiadau allweddol megis Deialog BBaCh y DU-UDA a chyflwyno eu cwmnïau a'u cynhyrchion i'r Ysgrifennydd Gwladol a Bwrdd Masnach y DU yng Nghaerdydd. Mae eraill wedi bwydo eu harbenigedd yn uniongyrchol i ddatblygiad polisi Whitehall neu wedi cymryd camau gweithredol i hyrwyddo allforio o fewn eu cymunedau.

## Allforio ar gyfer Twf - Gwasanaethau DBT yn y Gwledydd

Mae pob hyb yn cynnwys arbenigwyr sectoraidd penodol, gan gwmpasu meysydd cryfder ym mhob cenedl. Gallant helpu i gysylltu busnesau sy'n tyfu â'r timau sectoraidd neu ryngwladol DBT canolog, a'u nod yw sicrhau cynrychiolaeth gryfach o fusnesau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon mewn cenadaethau ar lefel y DU, digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' a gweithgareddau eraill. Mae adnoddau ar gael hefyd i helpu busnesau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ddeall a llunio Cytundebau Masnach Rydd neu nodi a lleihau rhwystrau i fynediad i'r farchnad.

Mae digwyddiadau'n cael eu cynllunio a'u darparu gan dimau'r gwledydd eu hunain, ac mae mwy o ddigwyddiadau ac arbenigwyr ehangach DBT wedi'u denu i wledydd. Ers 2022, ymwelodd chwe Chomisiynydd Masnach, neu eu dirprwyon, â gwledydd i weld busnesau, neu i gynnal digwyddiadau. Mae arweinwyr sector hefyd yn sicrhau bod 'llais' menter ar draws yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael ei glywed a'i gynrychioli'n dda wrth galon Llywodraeth y DU.

### Uchafbwyntiau'r gwledydd

- > 1100 o gofrestrïadau academi allforio yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- > 54 o hyrwyddwyr allforio ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
- > Cynhaliwyd dros 20 o ddigwyddiadau polisi masnach gyda busnesau a grwpiau cynrychioliadol busnes.
- > Dros 20 o ymweliadau mewnol a dirprwyaethau, gan gynnwys ymweliad gan ddirprwyaeth Wythnos Fintech Llundain â Chaerdydd, arddangosfa i brynwyr Tsieineaidd yn Belfast a busnesau fferyllol a rheoleiddwyr o Brasil.
- > Dros 20 o ddigwyddiadau sioe fasnach a digwyddiadau eilaidd, gan gynnwys Summer Fancy Food, Bio, cynhadledd JP Morgan Healthcare, Kidscreen, Photonics West (UDA), MEDICA ac Uwchgynhadledd Ofod Bremen (yr Almaen), Seafood Expo Global, Mobile World Congress (Sbaen), SIAL (Ffrainc), Money 2020 (Yr Iseldiroedd), THAIFEX (Gwlad Thai).
- > Ymweliadau gan 6 chomisiynydd masnach a'u dirprwyon yn ogystal ag ymweliadau gan lysgenhadon ac uchel gomisiynywyr.
- > Dros 25 o ddigwyddiadau hyrwyddo masnach proffil uchel eraill gan gynnwys: digwyddiad masnach UDA-Cymru yn ystod Cwpan y Byd Dynion; y Bwrdd Masnach (Gwyddorau Bywyd) a gynhelir yng Nghaerdydd; Sioe Deithiol Let's Get Exporting DBT yr Alban ei hun ar draws 5 dinas; digwyddiadau a ariennir ar y cyd â Scottish Development International gan gynnwys yng Ngŵyl Technoleg Ariannol yr Alban, Boutique Design Efrog Newydd; digwyddiadau lluosog mewn partneriaeth ag Invest NI i hyrwyddo Academi Allforio y DU; partneriaeth ag eComm Live ar gyfer dwy arddangosfa a fynychwyd gan dros ddau gant o bobl yn Belfast.
- > Presenoldeb busnesau o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar deithiau DBT ar draws sectorau allweddol a marchnadoedd rhyngwladol.
- > Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Buddsoddi Gogledd Iwerddon (NIIS) ar 12-13 Medi 2023 yn Belfast. Roedd hon yn achlysur economaidd o bwys yn 2023, gyda naratif cadarnhaol cryf ynghylch twf a ffyniant Gogledd Iwerddon.

# 'ASIAD' CYMORTH ALLFORIO DBT Â GWASANAETHAU'R LLYWODRAETHAU DATGANOLEDIG

## Yr Alban

Mae strategaeth allforio Llywodraeth yr Alban (Scotland: A Trading Nation)<sup>30</sup>, yn gosod targed o gynyddu allforion i 25% o GDP erbyn 2029. Amcangyfrifir y byddai hyn yn cyfrannu tua £3.5bn i GDP yr Alban, yn creu tua 17,500 o swyddi ac yn ychwanegu tua £500m mewn trethi at economi'r Alban bob blwyddyn. Yn unol ag A Trading Nation, mae Scottish Development International - is-adran ryngwladol Scottish Enterprise, asiantaeth datblygu economaidd genedlaethol yr Alban - yn gweithredu dull o gymorth allforio fesul segmentau a hynny'n seiliedig ar botensial twf allforio busnesau yn yr Alban. Mae'n nodi 15 o farchnadoedd blaenoriaeth, megis yr UE a Gogledd America, lle mae'r rhan fwyaf o gymorth Llywodraeth yr Alban wedi'i ganolbwyntio, yn ogystal ag 11 marchnad arall o ddiddordeb lle mae cyfleoedd sectoraidd mwy penodol. Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod bod cyfleoedd i fusnesau'r Alban mewn marchnadoedd eraill sy'n dod i'r amlwg ac mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i'w monitro'n agos, gan gynyddu cymorth yn y farchnad yn ôl yr angen.

Mae SDI yn cynnig cymorth personol trwy ei harbenigwyr masnach ryngwladol, gan dargedu carfan rannol o gwmnïau y nodwyd bod ganddynt y potensial i wneud y cyfraniad mwyaf at dyfu allforion yr Alban; roedd y segment

targed hwn yn cynnwys tua 1200 o fusnesau allforio i ddechrau, ond mae wedi'i adolygu'n rheolaidd. Er enghraifft, gall busnesau newydd ymuno â'r segment targed hwn yn rhan o'u llwybr twf, a chymorth personol hefyd yn cael ei gynnig i gynorthwyo cyfres o gwmnïau yn ystod cam cynnar y daith allforio. Y tu hwnt i hyn, mae busnesau'n gymwys ar gyfer nifer o wasanaethau ehangach, un i lawer ac ar-lein, gan gynnwys y rhaglen 'Paratoi i Allforio'; mae'r rhain wedi'u crynhoi isod. Mae llawer o'r gwasanaethau hyn ar gael i bob busnes.

Mae gan ecosystem cymorth allforio sector cyhoeddus ehangach yr Alban sawl cydran, gwasanaeth ac adnoddau a gynigir trwy asiantaethau menter, Business Gateway a mentrau eraill. Y tu hwnt i ryngwladoli, mae gwasanaethau asiantaethau menter eraill yn cefnogi cwmnïau i dyfu yn ddomestig. Gallai hyn eu rhoi mewn sefyllfa dda i allforio yn y dyfodol. Mae'r sector preifat hefyd yn cynnig amrywiaeth o gymorth allforio, gan gynnwys Sefydliadau Cynrychioli Busnes (BROs), cyrff masnach, siambrau masnach, a banciau.

Mae cymorth DBT presennol eisoes yn ategu ymgysylltiad Llywodraeth yr Alban a sector cyhoeddus arall yn yr Alban, ac mae'r ddau dîm cyflawni yn cydweithio'n agos. Gall busnesau sy'n cael cymorth personol gan SDI neu SE hefyd gael mynediad at wasanaethau pellach neu unigryw gan DBT ac yn aml cânt eu cyfeirio am gymorth o'r fath gan SDI. Er enghraifft, dim ond

30 Scotland: a trading nation. Cyhoeddwyd 1 Mai 2019.  
<https://www.gov.scot/publications/scotland-a-trading-nation/>

## Allforio ar gyfer Twf - Gwasanaethau DBT yn y Gwledydd

DBT sydd â phwerau cyfreithiol i weithio i ddatrys rhwystrau mynediad i'r farchnad; Mewn modd unigryw, mae gan UK Export Finance y pwerau a'r gwasanaethau i gefnogi busnesau ledled y DU. Gall ôl troed byd-eang DBT helpu cwmnïau mewn marchnadoedd lle nad yw SDI yn cadw presenoldeb, megis ledled America Ladin.

Mae DBT yr Alban wedi nodi mantais gystadleuol sylweddol i fusnesau'r Alban mewn sectorau sy'n allweddol i gyflawni uchelgais allforio 'ras i driliwn' y DU. Mae'r rhain yn cynnwys Pontio Ynni a Datgarboneiddio, Ynni Adnewyddadwy, Gwasanaethau Busnes Ariannol a Phroffesiynol, Gofal Iechyd a Gwyddorau Bywyd, Gofod, Technoleg a Bwyd a Diod. Bydd DBT yr Alban hefyd yn ceisio gwneud yn fawr o gyfleoedd traws-sector cysylltiedig megis cyllid gwyrdd, deallusrwydd artiffisial a thechnoleg cwantwm.

Mae busnesau'n dweud wrth DBT yr Alban eu bod wedi bod yn profi twf ar draws Gogledd ac America Ladin, yn y Gwlff, ac ar draws gwahanol rannau o Asia a'r Môr Tawel yn arbennig. Bydd ein tîm yn ceisio cefnogi twf o'r fath, ochr yn ochr â gwaith parhaus sy'n ymwneud â masnach â gwledydd Ewropeaidd, a cheisio helpu cwmnïau i wireddu cyfleoedd yn India, Awstralia a Seland Newydd a CPTPP.

